**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Cyfarfod Aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Mawrth, 19 Medi 2023 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| A Davis | E W Fitzgerald | M Jones |
| F D O'Brien | S Pritchard | T M White |

**Aelod(au) Cyfetholedig Statudol**

| | |
|---|---|
| Beth Allender | Elizabeth Lee |

**Cynghorwyr sy'n Aelod(au) Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| C A Holley | P R Hood-Williams | L R Jones |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Matthew Bowyer | Arweinydd Grŵp - Priffyrdd a Chludiant |
| Stuart Davies | Pennaeth Priffyrdd a Chludiant |
| Chloe Lewis | Arweinydd Tîm - Strategaeth Trafnidiaeth a Monitro |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Jack Palmer | Swyddog Teithio Llesol |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd A Stevens, Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: V A Holland ac W G Lewis

---

## 16 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 17 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 18 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

## 19 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 20 Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet: Teithio Llesol - Y Cynghorydd Andrew Stevens, Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd, gyda chymorth swyddogion Priffyrdd a Thrafnidiaeth, drosolwg o ofynion statudol Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a'r gwahanol ffrydiau gwaith sy'n rhan o raglen gyflenwi teithio llesol Cyngor Abertawe.

Rhoddodd swyddogion fanylion ynghylch y term 'Teithio Llesol', sut mae cynlluniau teithio llesol yn cael eu nodi, eu hariannu a'u datblygu, a sut mae'r cyngor yn monitro’r nifer sy’n manteisio ar deithio llesol yn Abertawe ac effaith hynny. Cyfeiriwyd y Pwyllgor at y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLl) y mae'n ofynnol i gynghorau eu cynhyrchu. Yn fwyaf diweddar, datblygwyd y mapiau hyn yn Abertawe drwy gydol 2021 a chynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu yn ystod y broses, a chymeradwywyd MRhTLl Abertawe ym mis Awst 2022. Bydd y MRhTLl yn cael eu hailystyried bob 3 blynedd.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Ymgynghori ac Ymgysylltu (yr addasiadau i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2021 o'i gymharu â'r ymgynghoriad yn 2017. Trafodwyd yr heriau sy'n gysylltiedig ag ymdrin â barn/safbwyntiau sy'n gwrthdaro yn ystod yr ymgynghoriad).
- Diogelwch (y broses a'r camau adfer sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer monitro damweiniau/digwyddiadau sy'n ymwneud â llwybrau Teithio Llesol).
- Buddion Cymunedol (manylwyd ar y gwahanol leoliadau sy'n elwa o seddi, creu lleoedd a gwyrddni).
- Dyraniad cyllid craidd ar gyfer gwaith mân (eglurwyd pwrpas y cyllid hwn a sut y gellid ei ddefnyddio).
- Twristiaeth a hamdden (er bod angen sicrhau cysylltedd rhwng Teithio Llesol a Thwristiaeth a Hamdden, roedd paramedrau llym i'w cadw hefyd wrth wneud cais am gyllid Teithio Llesol – gan fod adloniant/hamdden yn eilradd i'r prif amcan o ddefnyddio llwybrau ar gyfer teithiau pwrpasol i gyrchfan fel y gwaith, yr ysgol neu'r siopau, gan symud i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio'r car)
- Cynnal a chadw llwybrau ac isadeiledd (nid oedd cyllid penodol ar gael ar gyfer cynnal a chadw, er bod Llywodraeth Cymru yn cael ei gwthio'n barhaus ar y pwynt hwn. Mae unrhyw gostau i'w talu o'r cyllidebau refeniw presennol o fewn Priffyrdd a Chludiant).
- Amcanion Teithio Llesol (heriau sy'n gysylltiedig â newid arferion ymddygiadol o ran dewisiadau teithio - cerdded a beicio yn lle teithio yn y car - a'r dystiolaeth o

lwyddiant, a bod llwybrau teithio llesol yn cael eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd).

- Monitro a Gwerthuso (manylwyd ar y prosesau a'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Cadarnhaodd y swyddogion y gallai unrhyw ystadegau sydd ar gael am ddefnydd gael eu darparu i'r Pwyllgor).
- Cynlluniau'r dyfodol (ceir manylion am gynlluniau'r dyfodol yng nghynllun MRhTLl Abertawe ac roedd y cyngor yn gallu cyflwyno ceisiadau bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau sy'n barod i'w datblygu. Byddai'r canlyniad yn cael ei adrodd i'r Cabinet fel arfer tua Mehefin/Gorffennaf i'w gymeradwyo er mwyn bwrw ymlaen â gwariant ar brosiectau cysylltiedig ac ychwanegu at y rhaglen gyfalaf).

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd a'r Swyddogion am yr wybodaeth a ddarparwyd ac am ymateb i gwestiynau.

**Penderfynwyd** bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd gan adlewyrchu'r barn y Pwyllgor.

## 21 Adroddiad Blynyddol Craffu 2022/23

Cyflwynodd y Cadeirydd yr Adroddiad Blynyddol Craffu ar gyfer 2022/23, a fyddai'n cael ei gyflwyno gan y Cadeirydd i'r cyngor ar 5 Hydref, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor.

Roedd yn myfyrio ar yr ystod o weithgareddau a gyflawnwyd gan Gynghorwyr Craffu yn ystod y flwyddyn ddinesig flaenorol, gydag enghreifftiau o graffu da, effaith a gwelliant, gan gynnwys canlyniadau'r Arolwg Cynghorwyr ac adborth gan gyfranogwyr cyfarfodydd Craffu.

Roedd yr adroddiad yn dangos sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth, drwy

- Sicrhau bod Aelodau'r Cabinet (a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau eraill) yn cael eu dal i gyfrif
- Gwneud awgrymiadau, cynigion ac argymhellion ar bynciau o bryder ar sail tystiolaeth
- Monitro a herio perfformiad a gwelliant gwasanaethau
- Gweithredu fel ffordd o gadarnhau penderfyniadau allweddol y Cabinet drwy Graffu Cyn Penderfynu a gweithdrefnau Galw i Mewn
- Ac o'r holl waith hwn, cyfleu pryderon a chynigion ar gyfer gwella drwy gyhoeddi llythyrau ac adroddiadau Craffu yn rheolaidd; a
- sicrhau bod gwaith y cyngor yn agored ac yn dryloyw i'r cyhoedd

Mae'r adroddiad hefyd yn cefnogi gwelliant parhaus ar gyfer y swyddogaeth Graffu – ymdrechion i newid prosesau ac arferion, a newid pethau i fod hyd yn oed yn fwy effeithiol a gwneud y mwyaf o amser ac adnoddau cyfyngedig.

**Penderfynwyd** cytuno ar yr adroddiad i'w gyflwyno.

## 22 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau

**Penderfynwyd** cytuno ar aelodaeth y Paneli a'r Gweithgorau, fel yr adroddwyd.

## 23 Rhaglen Waith Craffu

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2023/24 y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ei monitro.

Dywedodd fod yr Ymchwiliad Craffu ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar 'gam olaf yr adroddiad' a rhagwelir y bydd yn cyflwyno ei adroddiad, gyda chasgliadau ac argymhellion, i Bwyllgor y Rhaglen Graffu ym mis Tachwedd.  Yna gofynnir i Bwyllgor y Rhaglen Graffu gefnogi cyflwyno adroddiad yr ymchwiliad i'r Cabinet am benderfyniad.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Raglen Hyfforddi a Datblygu Craffu sydd wedi'i datblygu ac a fydd yn cael ei darparu a'i hwyluso gan Dîm Gwella Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar gyfer Cynghorwyr Craffu Abertawe. Bydd y rhaglen yn cynnwys pum sesiwn wahanol rhwng mis Hydref a mis Ionawr. Gofynnwyd i gynghorwyr nodi argaeledd ar gyfer y sesiynau hyn a dylent ymateb cyn gynted â phosib yn unol â hynny.  Ailadroddodd y Cadeirydd fod yr hyfforddiant yn gyfle da i wella a datblygu gwybodaeth a sgiliau craffu.

Y prif eitemau sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 17 Hydref yw:

- Bwrdd Craffu Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.
- Craffu ar roi prosiect Oracle Fusion ar waith.

## 24 Dyddiad ac amser cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfodydd Panel/Gweithgor/Craffu Rhanbarthol sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.12pm

**Cadeirydd**